**<u>Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Gwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol</u>**

**<u>4 Mawrth 2020</u>**

**<u>Ystafelloedd Cynadledda C a D, Tŷ Hywel, Cynulliad Cenedlaethol Cymru</u>**

**Yn bresennol**

Alun Taylor, Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo

Brian Caviness, Swyddfa Huw Irranca-Davles AC

Ceri-Anne Fidler, Canolfan Cydweithredol Cymru

Chris Bolton, Tai Cymoedd Merthyr / Cwmni Cydweithredol Cartrefi Cymru

Claire Savage, Undebau Credyd Cymru

Clare Bugler, Walsingham Support

Damian Faulkner, Achubwyr Bywyd Pen-y-bont

Dave Browne, Smart With Money

Eleri Cubbage, Swyddfa Lynne Neagle AC

Gareth I. Jones, TownSq

Hayley Parker, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

John Chown, Canolfan Cydweithredol Cymru

Kate Spear, Inspirational Futures

Kath Palmer, Cymdeithas Tai Cadwyn

Karen Jeffreys, Linc

Marlene Silva, Prifysgol De Cymru / Canolfan Cydweithredol Cymru

Margaret Lippard, Right from the Start

Martin Downes, Canolfan Cydweithredol Cymru

Mike Ash-Edwards, Swyddfa Anna McMorrin AS

Mike Erskine, Canolfan Cydweithredol Cymru

Stella Matthews, Ymddiriedolaeth Gymunedol Splash

Steve Aicheler, Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Sue Poole, Young Dragons

**Cyfarfod cyffredinol blynyddol**
Dechreuwyd y cyfarfod drwy gynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol y grŵp.

Cafodd yr adroddiad blynyddol ei nodi. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys y materion a ganlyn:

- Roedd pob cyfarfod yn agored i'r cyhoedd, a chafodd pob cyfarfod ei hysbysebu i'r cyhoedd;
- ni chyfarfu'r grŵp ag unrhyw lobïwyr yn ystod y cyfnod diwethaf, ac eithrio'r ysgrifenyddiaeth; a
- chyfanswm yr incwm oedd £483.27. Cyfanswm y gwariant oedd £483.27, gan gynnwys costau cyfieithu ac arlwyo.

Cafodd Vikki Howells AC ei hail-ethol yn Gadeirydd y grŵp, a chafodd Mike Erskine o Ganolfan Cydweithredol Cymru ei ail-ethol yn Ysgrifennydd.

**Siaradwyr:**
Joff Gunter, Ministry of Life

Martin Downes, Canolfan Cydweithredol Cymru

Claire Savage, Undebau Credyd, a Damian Faulkner, Achubwyr Bywyd Pen-y-bont

David Smith, Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru

**Cofnodion y drafodaeth**

- Agorodd Vikki Howells y cyfarfod drwy gyflwyno ei hun a chroesawu pawb a oedd yn bresennol. Pwysleisiodd Vikki bwysigrwydd y pwnc dan sylw, gan ofyn beth sydd yn cael ei wneud yn barod a pha bethau eraill y gellir eu gwneud i godi ymwybyddiaeth o fentrau cydweithredol yng Nghymru.
- Siaradodd Joff Gunter o Ministry of Life am fenter 'Co-op in a box', sef gêm i helpu pobl ifanc mewn grwpiau ieuenctid i ddysgu am sefydliadau busnes cydweithredol. Mae 'Co-op in a box' yn dilyn hynt menter gydweithredol, gan godi cwestiynau ynghylch tegwch, busnesau cymdeithasol, cydweithredu ac ati. Mae Joff yn credu bod y dull hwn yn hoelio sylw pobl ifanc, gan gyfleu pwnc pwysig mewn modd gafaelgar a hwylus.

- Cyflwynodd Martin Downes, Swyddog Entrepreneuriaeth Gymdeithasol, Cymdeithas Cydweithredol Cymru, y cysyniad o 'Hackathon', sef digwyddiad sy'n dod â phobl ynghyd i ddatrys materion cymdeithasol drwy waith busnesau cymdeithasol. Mae hyn yn helpu pobl i ddatblygu eu sgiliau o ran datrys problemau drwy gydweithredu, gan feddwl am eu cymunedau a'r problemau sydd angen arnynt eu datrys. Mae Martin yn credu mewn grymuso'r dorf, o ran ymgysylltu â phobl i drafod problemau cymdeithasol, gan gynnig hyfforddiant drwy sesiynau addysgiadol ar gydweithredu.
- Soniodd Claire a Damian am eu gwaith mewn ysgolion cynradd ym Mhen-y-bont. Mae 12 o undebau credyd yng Nghymru, ac mae 17 y cant o'r aelodau o dan 16 oed. Rhoddodd Damian ragor o fanylion am y cynlluniau cynilo sydd ganddynt gydag ysgolion. Mae'r plant yn dysgu sut i gynilo arian, gan feddwl am y gwahanol ffyrdd y maent yn dymuno defnyddio'r arian hwnnw yn y dyfodol. Mae amryfal fanteision i'r cynllun hwn, gan gynnwys dysgu plant sut i ddatrys problemau a helpu iddynt gydweithio â rhieni, athrawon a'r gymuned ehangach. Y nod yw creu canolfannau mwy yn y dyfodol, gan alluogi iddynt ymgysylltu â chymunedau ehangach a chynnig rhagor o gyfleoedd i feithrin sgiliau ariannol. Fodd bynnag, mae'r cynlluniau cynilo yn wynebu heriau, a nododd Damian fod diffyg adnoddau yn broblem sy'n wynebu ysgolion mewn rhai ardaloedd. Dylai sefydliadau ddod ynghyd i hyrwyddo'r cynlluniau yma, sydd yn dysgu plant ac yn eu hannog i gyfrannu at sefydliadau cydweithredol yn y dyfodol.
- Soniodd David Smith am bartneriaeth Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru â chwmnïau cydweithredol Awel Aman Tawe a Fferm Wynt Egni. Diben y bartneriaeth hon yw rhoi cyfle i ysgolion o Gasnewydd ymweld â fferm wynt Awel Aman Tawe i weld sut mae cwmnïau cydweithredol yn gweithio ac i ddeall sut y gellir cynhyrchu ynni o'r gwynt. Mae David yn credu bod enghreifftiau ymarferol yn fwy effeithiol na dysgu'r theori yn unig, a bod angen cyflwyno gwaith cwmnïau cydweithredol mewn ysgolion i sicrhau effaith gadarnhaol mewn cymunedau. Soniwyd bod yr Undeb Ewropeaidd wedi dyrannu £1.5 miliwn o gyllid i ysgolion yn Abertawe i'w galluogi i gymryd rhan mewn prosiectau tebyg. Gofynnodd David pam nad yw ysgolion yn ymateb i'r mentrau hyn a beth y gellir ei wneud yn wahanol i ymgysylltu â phobl yn well.
- Mae cyfleoedd i ddysgu am fentrau cydweithredol mewn ysgolion yn esblygu law yn llaw â'r cwricwlwm newydd i Gymru, gan alluogi myfyrwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau cydweithredol go iawn. Pwysleisiodd David fod dysgu, hyfforddi, darparu adnoddau digonol ac ennyn ewyllys gwleidyddol oll yn hanfodol i sicrhau bod byd addysg yn rhan o fentrau cydweithredol.

Cwestiynau

- Nid yw pobl sydd ag anableddau dysgu yn cael y profiadau hyfforddi hyn, gan arwain at ddiffyg cyfleoedd o ran cyflogaeth. Gofynnwyd sut y gall pobl sydd ag anableddau dysgu gael mynediad at y cynlluniau hyn a chymryd rhan ynddynt, gan gynnwys mentrau sy'n gysylltiedig ag addysg gydweithredol. Nodwyd nad yw rhai cynlluniau, rhaglenni a chyfleoedd hyfforddi yn gynhwysol nac yn hygyrch.
- Pa gyfleoedd sy'n agored i ysgolion ledled Cymru o ran prosiectau ar y cyd ag Undebau Credyd?
- A oes rhagor o gyfleoedd i ysgolion gymryd rhan mewn rhaglenni, digwyddiadau, a chyfleoedd hyfforddi gyda sefydliadau cydweithredol?